

CROESO I GYMDEITHASFA'R HYDREF YM MYNYDD SEION, ABERGELE – 11 HYDREF

"We came to the celebrated bathing town of Abergele" meddai M. L. Louis yn ei lyfr taith *Gleanings of a tour in North Wales* (1824). Ofnaf na fydd amser gan yr un cynrychiolydd i ymdrochi yn y môr (pe byddai'r tywydd yn caniatáu hynny) pan ddaw'r Gymdeithasfa i Fynydd Seion, Abergele ym mis Hydref eleni! Hyfrydwch ar ran yr Eglwys a Henaduriaeth Dyffryn Clwyd yw cael eich croesawu yn gynnes iawn. Y flwyddyn nesaf byddwn yn dathlu 150 o flynyddoedd ers codi'r Mynydd Seion presennol ym 1868 – un o gapeli harddaf Cymru yn siŵr fel y cewch weld.

Yma y bu'r Parchedigion Thomas Lloyd, William Roberts, Francis Jones, W. R. Owen, William Griffith, Llywelyn Evans, Griffith Owen ac Isaac Jones yn rhoi o'u gorau i'w Gwardedwr.

Bu Isaac Jones, tad y prifardd a'r llenor T. Gwynn Jones yn Flaenor yn yr hen gapel, Canolfan Mynydd Seion heddiw, lle y byddwch yn cael eich cinio a'r Te Croeso. Yno hefyd y cafodd Emrys ap Iwan ei addysg gynnar, ac yn y festri y drws nesaf iddi y dechreuodd llyfrgell gyhoeddus gyntaf Abergele, a rhai o'r llyfrau yn dal yno hyd heddiw. Yr hen gyfrolau llwyd mewn ystafell fodern olau a chyfforddus erbyn hyn. Yno y byddwn



cc-by-sa/2.0 - Capel Mynydd Seion by Jonathan Wilkins - geograph.org.uk/p/922847

yn cynnal ein Cyfarfodydd Gweddi ac Oedfaon yr hwyr. Bydd llawer o gymdeithasau'r dref yn defnyddio'r adeiladau. Rhodd John Roberts A.S., Blaenor arall yma, ac Arglwydd Clwyd, oedd y festri. John Roberts lwyddodd i gael y Mesur hanesyddol o gau tafarndai ar y Sul (1881) – y Mesur cyntaf yn Senedd Lloegr ers 1536 i ymwneud â Chymru'n benodol. Dyna pam y cyfeirid am flynyddoedd at beint olaf nos Sadwrn fel "Peint Lord Clwyd"!

Y mae yma draddodiad o groesawu a diddanu. Dyma'r hyn a ysgrifennodd Charles Jones, Abergele, yn ei Ddyddiadur ar gyfer 10 Mawrth 1863:

"Yr oedd helynt mawr drwy'r byd

oherwydd dathlu priodas y Prince of Wales. Yr oedd gennym ninnau tea party gan y Methodists ac yr oedd yna rasyd mulod a rhedeg mewn sachau a'r cyffelyb, a lluchio tân gwyllt, a choelcerth ar graig Twll Llwynog."

Na, ni fydd amser ychwaith i gael rasmus mulod na rhedeg mewn sachau!

Dathlu dyfodiad Tywysog Tangnefedd a wna'r Methodists ym Mynydd Seion heddiw. Fodd bynnag, fe gewch ginio a the parti. Yn wir, bydd y tegell ar y tân cyn i chi gyrraedd am naw y bore, i ddarparu te neu goffi.

Gwranddo, lleisio barn, dweud yr un gair, cytuno neu anghytuno fydd eich gorchwyl chi wrth wrando ar Adroddiadau Adrannau gwahanol ein Cyfundeb. Cawn ein harwain at Fwrdd llawen ac atgofus ein Gwardedwr gan ein Llywydd, y Parchg Eric Jones, Bangor, yn dilyn anerchiad gan y Parchg Morris P. Morris, Rhuthun.

Bydd diwrnod prysur o'ch blaen ond gallaf eich sicrhau y bydd croeso cynnes a byrddau llawn yn eich disgwyl.

Dewch a mwynhewch!

Y Parchg Ifor ap Gwilym (Gweinidog)

Y Gair yn ein geiriau ni William Salesbury a Thestament Newydd 1567

Cyfieithydd yr Ysgrythurau

Bu William Salesbury yn Llundain am fisoedd yn 1567, yn lletya gyda'r llyfrwerthwr a'r cyhoeddwr Humfrey Toy (o Gaerfyrddin) ac yn arolygu gwaith yr argraffydd Henry Denham ar y Llyfr Gweddi a'r Testament Newydd Cymraeg. Yr oedd eisoes, yn 1551, wedi cyhoeddi cyfieithiad o lithoedd Gwasanaeth y Cymun, fel y ceid hwy yn Llyfr Gweddi Saesneg yr Archesgob Cranmer, yn *Kynniver Llith a Ban*. Croeso braidd yn llugoer a gafodd y gyfrol honno; a, pha un bynnag, ar farwolaeth y brenin ifanc Edward VI yn 1553 daethai ei hanner chwaer Mari i'r orsedd a mynd ati'n ddigyfaddawd i adfer yr hen ffydd Rufeinig a'r ffurfwasanaethau Lladin. Ond gyda'i marw hithau yn Nhachwedd 1558

coronwyd Elisabeth yn frenhines, a dyna ailgydio swyddogol yn rhai, beth bynnag, o'r egwyddorion Protestannaidd.

Y tro annisgwyl hwn a roes i Salesbury ei gyfle mawr wrth i'r Eglwys 'Anglicanaidd' a sefydlwyd gan Elisabeth honni arddel pwyslais Luther a'r diwygwyr ar addoli, ac ar gael y Beibl, mewn iaith ddealladwy i'r bobl. Ond pa fudd oedd i'r Cymry uniaith o'u gorfodi i ddilyn gwasanaethau'r eglwysi plwyf yn Saesneg, iaith a oedd yr un mor estron iddynt â Lladin yr hen drefn? Bu Salesbury, gyda help yr Esgob Richard Davies (esgob Llanelwy er 1559, yna Tyddewi wedi 1561) a Humphrey Llwyd o Ddinbych, ar flaen y gad



(<http://thehistoryofwales.typepad.com/.a/6a0177449d1b30970d01a3fd101438970b-300wi>)

(parhad ar dudalen 2)

Y Gair yn ein geiriau ni William Salesbury a Thestament Newydd 1567

(parhad o dudalen 1)

yn arwain yr ymgyrch a arweiniodd at ddeddf seneddol hollbwysig 1563. Honno oedd y ddeddf yn gorchymyn pedwar esgob Cymru, ynghyd ag esgob Henffordd, i drefnu cyfieithu'r Beibl a'r Llyfr Gweddî i'r Gymraeg a sicrhau bod copïau o'r ddau lyfr i'w gosod ymhob eglwys yng Nghymru erbyn Gŵyl Ddewi 1567.

Richard Davies, fe ymddengys, oedd yr unig un o'r esgobion i gymryd yr her anferthol hon o ddirif. I ateb yr her troes at

William Salesbury – gan ba Gymro arall, yn wir, yr oedd y gwytnwch cymeriad, heb sôn am yr adnoddau ysgolheigaidd angenrheidiol (megis meistrolaeth ar yr ieithoedd Hebraeg a Groeg), i feddwl am ymgymryd â'r dasg? – a'i wahodd ato i Abergwili, lle'r ymroes i'r gwaith cyfieithu gyda diwydrwydd a phenderfyniad syfrdanol. Peth afrealistig oedd tybio y gellid cwblhau'r Beibl cyfan erbyn y targed a osodwyd (bu'n rhaid aros hyd 1588 a chyfieithiad William Morgan am hynny). Ond ym mis Mai 1567 wele gyhoeddi'r Llyfr Gweddî Gyffredin, ynghyd â'r holl Salmâu, yn gyfrol hardd, gymesur.

Salesbury a gyfieithodd y cyfan – y rhannau o'r Ysgrhythur a hefyd y litwrgi. Am genedlaethau lawer, i rythmau'r ieithwedd urddasol a sefydlwyd ganddo ef yn 1567 (er pob newid, parthed manylion, mewn argraffiadau diweddarach) y bu'r Cymry'n addoli yn y Foreol a'r Hwyl Weddi ac mewn gwasanaeth Cymun, yn cael eu bedyddio a'u priodi a'u claddu. Mae'n biddol i ninnau, Fethodistiaid Calfinaidd, gofio mai yn sŵn y Llyfr Gweddî y maged rhai fel Howel Harris a Thomas Charles, ac mai â'r llyfr hwn yn eu llaw yr arweiniai Daniel Rowland a Williams Pantycelyn addoliad yn y llannau.

Bum mis yn ddiweddarach, ar Hydref 7fed (a bod yn fanwl), daeth y Testament Newydd o'r wasg. Gwaith Salesbury oedd y rhan fwyaf o ddigon o'r cyfieithu, yn seiliedig – fel y dangoswyd gan ymchwil trwyadl Dr Isaac Thomas – ar gydnabyddiaeth lwy â'r ysgolheictod diweddaraf ar y testun Groeg. Ysgafnawyd ychydig ar y trymwaith gan Richard Davies, a gyfrannodd epistolau I Timotheus, Hebraeid, Iago a I & II Pedr, a chan Thomas Huet, cantor Cadeirlan Tyddewi, a gyfieithodd Lyfr y Datguddiad (gyda chyffyrddiadau mynych o Gymraeg Dyfed). Y mae'r orchest sydd ynghlwm wrth y gyfrol, o ba ongl bynnag yr edrychwn arni (boed hynny ei phwysigrwydd yn ein hanes crefyddol ac ieithyddol, neu ei harwyddocâd o ran dysg a diwylliant) yn gwneud ei hymddangosiad yn un o'r digwyddiadau anhepgor yn stori'r Cymry.

Rhaid addef, ar y llaw arall, mai cymysg fu'r derbyniad a roddwyd i'r gwaith, yn bennaf oherwydd dieithrwrch rhai o'r egwyddorion a fabwysiadwyd gan Salesbury ar gyfer printio'r llyfr. Greddf ysgolhaig oedd wrth wraidd llawer o'i arferion, e.e. anelu at gyfieithu pob un gair a oedd yn y Groeg gwreiddiol (felly defnyddio'r ffurf 'yr Iesu', pan ragflaenir yr enw gan y fannod Roeg) neu ddangos mewn ffont wahanol y 'geiriau dodî' a ychwanegwyd er mwyn eglurder yn y Gymraeg. Mynnai hefyd argraffu geiriau mewn ffurf Ladinaidd ('popul', nid 'pobl';

'discipulon', nid 'disgyblion'), ymwrthod â dangos treigladau (yn arbennig y treigladau trwynol), amrywio ei ddull o sillafu'r un gair, cynnig dewisiadau geirfaol gwahanol ar ymyl y ddalen. Fel arbrawf orgraffyddol ac ysgolheigaidd y mae i bethau felly ochr ddiddorol iawn. O'u cael, fodd bynnag, mewn testunau a oedd i'w darllen mewn addoliad cyhoeddus, yr oeddent yn achos aneglurder a dryswch, a gellir yn hawdd ddychmygu mai stryffaglu drwy'r llithoedd fu hanes mwy nag un offeiriad. Troes dysg Salesbury yn rhwystr i'w ddarllenwyr, a bu'n rhaid aros hyd 1588, a diwygio'r orgraff ac elfennau annosbarthus

eraill, cyn cael testun y gellid ei ddefnyddio heb anhawster. Ni ddylid ar unrhyw gyfrif anghofio, fodd bynnag, mai ar gyfieithiad 1567 y seiliodd William Morgan ei fersiwn ef o'r Testament Newydd. Derbyniodd gan ei ragflaenydd adnodau dirfedi sy'n tystio i ddawn ddigamsyniol Salesbury fel cyfieithydd ac na newidiwyd fawr ddim arnynt ar wahan i'w horgraff ecentrig. Mewn brawddeg yn ei gyflwyniad Lladin i Feibl 1588 synhwyrir ymwybod William Morgan â gwerth amhrisiadwy gwaith Salesbury a Richard Davies, un mlynedd ar hugain ynghynt. 'Ni ellir,' meddai, 'yn hawdd fynegi maint y budd a ddaeth i'n cydwladwyr drwy'r llafur hwn.'

Ein rhesymol wasanaeth ninnau, yn 2017, yw cofio'n ddiolchgar fendithion yr arloesi arwrol bedair canrif a hanner yn ôl.

Ceri Davies

Eleni gwnaed Testament Newydd 1567 yn fwy hygyrch nag y bu ers cenedlaethau. Mae modd gweld copi ohono wedi'i ddigideiddio'n rhagorol ar wefan Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Hefyd gosodwyd y testun (yn dilyn adargraffiad a gafwyd yn 1850) ar Ap Beibl.

Eglwys Bresbyteraidd Cymru Bwrdd y Gymanfa Gyffredinol

Prif-Weinyddydd



Mae'r Bwrdd yn gwahodd ceisiadau gan unigolion am y swydd allweddol hon. Mi fydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn arwain agweddau corfforaethol yr Enwad, ac yn rheoli'r Uwch Swyddogion gweinyddol yn Swyddfa'r Gymanfa yn yr Eglwys Newydd yng Nghaerdydd.

Oriau – 14 awr yr wythnos.

Cytundeb – Blwyddyn ar y cychwyn gyda'r 3 mis cyntaf yn gyfnod prawf.

Cyflog – Graddfa 60-64 (Graddfeydd EBC) pro rata ynghyd â lwfans tŷ a char a chyfle i ymuno â Chynllun Pensiwn EBC.

Mae'r swydd hon yn amodol ar ddau eiradau boddhaol.

Mae'n ofyniad galwedigaethol bod ymgeisydd ar gyfer y swydd yn Gristion ac yn rhugl yn y Gymraeg.

Am ddisgrifiad swydd a ffurflen gais cysylltwch â'r Ysgrifennydd Cyffredinol: ysgrifennydd.cyffredinol@ebpcw.org.uk neu ar 029 20627 465.

Dyddiad cychwyn y swydd fydd 1 Ionawr, 2018

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 16 Hydref 2017

Ymwelwch â gwefan Eglwys Bresbyteraidd Cymru:

www.ebpcw.cymru